**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 13-00(p2)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 11 Hydref 2000
**Amser** 9.00am tan 12.20pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Mecanwaith Apelau Annibynnol**

**Diben**

1. Yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a gynhaliwyd ar 14 Medi, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth y byddai’n cyflwyno dogfen ymgynghorol ddrafft yn y cyfarfod nesaf (11 Hydref) mewn perthynas â’r Drefn Apelio Annibynnol ar gyfer ffermwyr Cymru.

2. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y papur ymgynghori drafft yn Atodiad 1 cyn y bydd Swyddogion yn dosbarthu’r ddogfen i’r diwydiant ffermio yng Nghymru.

**Crynodeb**

3. Bu’r diwydiant yn dadlau bod angen trefn apelio ffurfiol i setlo anghydfodau mewn perthynas â rheolau IACS (gan amlaf). Cyfyd anghydfod pan anghytunir yngln â ffeithiau achos ac/neu ynghylch cymhwyso neu ddehongli Rheoliadau Ewropeaidd. Mae mwyafrif yr achosion yn ymwneud â thalu cymorthdaliadau tir âr a da byw sydd yn dod o dan Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF).

4. Ni fyddai mecanwaith ffurfiol ar gyfer apelio yn newid y ffaith bod yn rhaid i ffermwyr gydymffurfio â rheoliadau’r Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad barhau i orfodi’r Rheoliadau hyn. O beidio â gwneud, mae gwir berygl y gallai’r Comisiwn Ewropeaidd wrthod ad-dalu gwariant.

5. Mae’r papur ymgynghori yn Atodiad 1 yn cynnig proses apelio sy’n cynnwys 4 cam gwahanol. Ceir manylion llawn ym mharagraffau 21 - 21.8 y papur. Yn fras, dyma’r 4 cam:

- **Cam 1 -** rheolwr yr aelod o staff a wnaeth y penderfyniad cyntaf i ystyried ymateb cychwynnol ffarmwr i’r penderfyniad y maent yn anhapus ag ef.
- **Cam 2 -** os na ellir datrys apêl bydd Swyddog Gweinyddol Rhanbarthol (DEO) yn ailystyried achos y ffarmwr. Ped ystyrid bod y penderfyniad gwreiddiol yn gywir, cyfrifoldeb y DEO fyddai cyhoeddi papur achos ag iddo fformat safonol yn amlinellu rhesymau’r Cynulliad am wrthod apêl y ffarmwr.
- **Cam 3 -** Cynigir bod Uned Apelau yn cael ei sefydlu, a fydd yn cael ei rhedeg gan Swyddogion y Cynulliad er mwyn ystyried pob apêl sy’n parhau heb eu datrys ar ôl Cam 1 a 2. Byddai’r uned

yn annibynnol ar y strwythurau rheoli sy'n ymwneud â'r penderfyniad cychwynnol.

6. Ni fydd hi'n costio i'r apeliwr fynd hyd at gam 3. Disgwylir y caiff mwyafrif yr apelau eu datrys o fewn 3 cham cyntaf yr apêl. Ond os yw'r apeliwr yn parhau'n anfodlon cynigir pedwerydd cam:

- **Cam 4 -** panel ***cynghori*** annibynnol o ganolwyr i ystyried pob apêl ysgrifenedig a llafar ac i wneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Byddai'r panel yn cael ei wasanaethu gan Uned Apelau. Byddai'n rhaid darparu hyfforddiant ac arweiniad clir i ganolwyr er mwyn sicrhau bod eu ffordd o ystyried a'u hargymhellion yn cadw o fewn gofynion rheoliadau y Comisiwn Ewropeaidd. Rhagwelir y bydd cadeirydd allanol ar y Panel (gyda chefndir yn y diwydiant ffermio).

7. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn gwahodd ymgynghorwyr i wneud y canlynol:

- Cytuno bod angen mecanwaith apelio mwy annibynnol a chlir
- Awgrymu sut y gellid rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses apelio
- Cytuno y dylid sefydlu proses apelio sy'n cynnwys nifer o wahanol gamau
- Cytuno bod y 3 cham cyntaf yn angenrheidiol cyn troi at y panel annibynnol
- Ystyried a yw'r gwaith arfaethedig o sefydlu cam 4 yn ateb cais y diwydiant am banel annibynnol
- Cytuno bod codi tâl yn ffordd resymol o rwystro pobl rhag gwneud apêl disail
- Ystyried a ddylai pob apêl orfod mynd drwy bob cam neu a ddylid rhoi'r dewis i apelwyr fynd yn syth i'r pedwerydd cam pe dymunent.

**Amseru**

8. **Brys** *Mae angen 8 wythnos ar gyfer y broses ymgynghori, a'i ddilyn ag argymhellion i'r Ysgrifennydd dros Amaeth gan fwriadu rhoi mecanwaith apelio ar waith erbyn diwedd blwyddyn cynllun IACS 2000 (Mai 2001).*

**Cefndir**

9. Mae'r diwydiant ffermio wedi rhoi cryn bwysau ar y Cynulliad i sefydlu panel apelio annibynnol ar gyfer ffermwyr. Mae'r diwydiant yn gofidio bod y Cynulliad yn gwneud gwaith barnwr yn ogystal â rheithgor wrth gosbi ffermwyr am dorri rheolau cynlluniau cymhorthdal Ewrop. Mae'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig eisoes wedi dangos eu cefnogaeth i fecanwaith apelau annibynnol.

10. Cyhoeddodd Grp Biwrocratiaeth IACS, a sefydlwyd er mwyn edrych ar faich y rheoliadau ar ffermwyr, adroddiad a oedd yn cydnabod y dylid ymgynghori â'r diwydiant ffermio ar broses apelio annibynnol, a chytunodd yr Ysgrifennydd blaenorol dros Amaethyddiaeth i gynnal ymgynghoriad yng Nghymru.

11. Byddai'n rhaid i gynigion dawelu pryderon y diwydiant, cadw'n rhesymol o gyson â datganiadau MAFF a Gweithrediaeth yr Alban (yn ogystal â chwrdd â pholisi'r Comisiwn ar gydgordio), ceisio bodloni gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) a sefydlu mecanwaith nad yw'n rhy gostus ar gyfer y Cynulliad neu apelwyr posibl.

**Elfen Farnwrol?**

12. Mae'r papur fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn wahanol i gynigion Gweinyddiaeth yr Alban gan nad yw'n rhoi opsiwn penodol ar gyfer sefydlu corff barnwrol a allai wneud penderfyniadau cyfreithiol mewn achosion apelio. Mae'n bur debyg y bydd papur ymgynghorol MAFF yn cynnwys opsiwn o gam barnwrol.

13. **O bosibl, dyma 5ed cam** i'w ychwanegu i'n cynigion. Byddai'n ymwneud â sefydlu corff cyfreithiol (Tribiwnlys) yng Nghymru (a Lloegr) i gyflawni'r swyddogaethau hyn neu ddiwygio pwerau Tribiwnlys sydd eisoes yn bodoli. Y Tribiwnlys fyddai'n penderfynu'n derfynol ar achos, er y byddai opsiwn pellach i apelio i'r llysoedd. Gall tribiwnlysoedd fod yn ddrud i'w rhedeg (amcangyfrifwyd bod cost rhedeg rhai Tribiwnlysoedd yn tynnu at £1 miliwn) a byddai'n ychwanegu haenen ychwanegol o fiwrocratiaeth i'r broses. Mae'n anodd amcangyfrif beth fyddai costau cam barnwrol yng Nghymru. Ar hyn o bryd ni allwn amcangyfrif faint o achosion apelio a gâi eu cyflwyno o ganlyniad i'r broses apelio na chyfran yr achosion a allai gyrraedd y panel ymgynghorol / y cam barnwrol. Gall achos unigol gymryd dyddiau i'w ddatrys yn ystod y cyfnod barnwrol.

14. Byddai sefydlu cam barnwrol yn cymryd y cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau o ddwylo'r Cynulliad. Ond, gellid dadlau y byddai Tribiwnlys ar ddiwedd mecanwaith apelio yn ateb gofynion ECHR yn well (paragraff 16 y papur drafft). Mewn gwirionedd, pe penderfynai MAFF wneud hyn, byddai'n anodd iawn i'r Cynulliad feddu ar system a fyddai'n wahanol i'r hyn a geid yng ngwledydd eraill y DU a fyddai i'w gweld yn llai trwyadl ac a fyddai hefyd yn agored i sialens gyfreithiol.

**Gweithredu gan Adrannau Amaethyddol eraill y DU**

15. Mae Gweithrediaeth yr Alban (SERAD) eisoes wedi cwblhau eu hymgynghoriad ar y mater hwn ac mae Gweinidogion yr Alban wedi nodi eu bwriad i sefydlu system bedair lefel sy'n cynnwys elfen farnwrol. Ceir y manylion yn Atodiad 1 Paragraff 24. Mae MAFF a'r Adran dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon (DARD) yn cynnig ymgynghori'n fuan ar eu cynigion hwy. Mae gan Weriniaeth Iwerddon, a gwledydd eraill y UE eisoes fecanweithiau apelio sy'n cynnwys gwahanol raddau o annibyniaeth.

**Cydymffurfio**

16. Ceir agweddau ar gydymffurfio yn adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Dirprwywyd y pwerau o dan adran 33 i Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Themâu Trawsbynciol**

17. Yn ddiweddar cyflwynwyd Cod Ymarfer y Cynulliad ar gwynion sy’n gofyn bod y sawl sy’n cadeirio panel cwynion yn annibynnol ar y Cynulliad. Er y bydd y panel cwynion yn ymchwilio i achosion honedig neu fethiant o du’r Cynulliad, neu safon y gwasanaeth sy’n cael ei gynnig, ni fydd yn adolygu hanfod penderfyniadau’r Cynulliad. Cyfrifoldeb swyddogion y Cynulliad fydd rhoi ffermwyr ar ben ffordd yngln â pha lwybr yw’r mwyaf addas i’w gymryd ar gyfer eu hamgylchiadau arbennig hwy.

18. Bydd ffermwyr Cymru yn parhau i allu cysylltu’n uniongyrchol ag Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru yngln ag achosion o gamweinyddu.

**Y Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

19. Trafod y ddogfen ymgynghorol yn Atodiad 1 cyn ei chyhoeddi i’r diwydiant ffermio yng Nghymru. Efallai y bydd aelodau o’r Pwyllgor am drafod y posibilrwydd o sefydlu pumed cam (barnwrol) - a p’un a fyddai well ganddynt ei gynnwys nawr mewn ymgynghoriad neu ei ychwanegu at y broses maes o law pe byddai hynny’n angenrheidiol yng ngoleuni trafodaethau pellach gyda MAFF a thiriogaethau eraill y DU.

**Pwynt Cyswllt**

Gareth Jones, Yr Is-adran Rheoli CAP

---

**Atodiad 1**

**DDRAFFT**

## SEFYDLU MECANWAITH APELIADAU CYMORTHDALIADAU EWROPEAIDD AR GYFER FFERMWYR YNG NGHYMRU: DOGFEN YMYNGHOROL

### RHAGYMADRODD

**Beth yw pwnc y papur hwn?**

1. Mae'r papur ymgynghorol hwn yn gwahodd sylwadau gan y diwydiant amaeth ar gynigion ar gyfer mecanwaith apeliadau well ac annibynnol yng Nghymru, i ddod yn bennaf o dan y System Gweinyddu a Rheoli Integredig (IACS). Ei diben fyddai gwella ar ein prosesau presennol i ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud yn benodol ac yn unig â thalu arian o'r Gronfa Gwarant ac

Arweiniad Amaethyddol Ewropeaidd (EAGGF, y cyfeirir ato weithiau wrth ei acronym Ffrangeg FEOGA).

2. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn anelu at gael y rhan fwyaf o'r elfennau o'r fecanwaith apeliadau newydd ar waith erbyn diwedd 2000, ond gallai sefydlu panel i edrych ar gynllun IACS 2000 fod yn darged mwy ymarferol. Gwahoddir sylwadau erbyn 30 Tachwedd 2000 a gellir eu hanfon ar wahân neu ar y ddalen ateb amgaeëdig i:

Julia Richards
Is-Adran Rheoli'r Polisi Amaeth Cyffredin
Adran Amaethyddiaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

3. Noder efallai na fydd yn bosib ystyried atebion sy'n cyrraedd ar ôl y terfyn amser uchod.

4. Fel arfer rydym yn ymateb yn gyhoeddus i'n papurau ymgynghorol. Os nad ydych yn dymuno i'ch ymateb fod yn gyhoeddus, dywedwch wrthom wrth ateb. Os ydych eisiau gweld yr ymatebion eraill, byddant ar gael yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pam ymgynghori?**

5. Cafwyd pwysau cynyddol gan y diwydiant am banel apêl annibynnol sy'n dryloyw, gyda rhai os nad pob un, yn aelodau annibynnol, i ystyried apeliadau gan ffermwyr Cymru yn erbyn cosbau cymhorthdal a roddwyd arnynt o dan ganllawiau'r UE. Yn ogystal â hyn, mae Pwyllgor Amaeth a Datblygiad Gweldig y Cynulliad wedi gwneud yn amlwg ei fod am i'r Cynulliad gyflwyno mecanwaith o'r fath a bu'r adroddiad diweddar gan Grwp Tâp Coch IACS a sefydlwyd gan MAAF i edrych ar feichiau rheoleiddio ym maes IACS yn ystyried opsiynau posib ar gyfer mecanwaith apeliadau annibynnol. Roedd yn cydnabod "er nad oedd llawer o le i hyblygrwydd, dylid ymgymghori â'r diwydiant ynglyn â sefydlu proses apeliadau annibynnol".

**Cefndir**

5. Cafodd y System Gweinyddu a Rheolaeth Integredig (IACS) bresennol ei chyflwyno gan Reoliad UE yn 1993 yr un pryd â diwygiad CAP McSharry. Roedd y diwygiad hwn yn golygu symudiad sylweddol i ffwrdd o gefnogaeth anuniongychol, drwy ymyrryd yn y farchnad, i gefnogaeth uniongyrchol ar ffurf cymorthdaliadau i ffermwyr. Mecanwaith gwrth-dwyll a rheoli gwariant yw IACS yn y bôn sydd yn gosod rheolau y mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymgeisio am gynlluniau perthynol gydymffurfio â nhw. Dyma'r prif Gynlluniau Cymhorthdal Ewropeaidd. Nid yw'r rheiny â seren yn cael eu gweinyddu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ni fyddent yn dod oddi mewn i gwmpawd y cynigion yn y papur hwn.

Cynllun Taliadau Tir Âr (APPS)
Cynllun Premiwm Arbennig Eidion (BSPS)
Cynllun Premiwm Buwch Sugno (SCPS)
Taliad Ehangu (EPS)
Lwfansau Iawndal Anifeiliaid Mynydd (HLCA)
Tir Mynydd (yn lle'r HLCA - manylion ddim yn derfynol eto)
Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (SAPS )
Cynllun Premiwm Lladd a/neu Gynllun Premiwm Lladd Lloi (SPS)*
Cymorth ar gyfer Llysiau Grawn (GLS)*
Cymhorthdal Ffeibr Llin*
Cymhorthdal Cywarch*
Cymorth Incwm Hopys*

Mae gwariant 1998-99 yng Nghymru ar y prif gynlluniau yn cael ei ddangos yn Atodiad A.

7. Mae deddfwriaeth IACS yn cynnwys gwahanol gosbau y mae'n rhaid eu rhoi am fethu â chydymffurfio â gofynion y cynllun. Mae'r rheolau yn hynod o llym ac ar y cyfan nid ydynt yn gadael fawr o ddisgresiwn i Aelod-Wladwriaethau. Mae'r modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweinyddu'r Cynlluniau yn cael ei wirio gan archwilwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd a gan y Llys Archwilwyr Ewropeaidd (ECA). Byddai methu â gwirio hawliadau yn drylwyr neu wneud canran gorfodol o archwiliadau neu roi costau yn unol â'r rheolau yn gadael y Cynulliad yn agored i wrthodiad gan y Comisiwn, hy gwrthod ad-dalu cyfran o wariant y cynllun.

**Y cosbau**

8. Mae yna ddau fath o gosb weinyddol:

> ***Gostyngiadau canran*** mewn taliad: mae'r rhain yn deillio o ddatganiadau anghwyir am ardaloedd neu niferoedd anifeiliaid neu roi hawliadau i mewn yn hwyr. Mae'r gostyngiadau mewn taliadau yn raddol, wedi eu seilio ar faint o or-ddatganiad o ardaloedd neu niferoedd a wnaed neu ar pa mor hwyr yr aeth yr hawliad i mewn. Ym mhob achos mae yna derfyn ac wedi hwn mae'r cymhorthdal wedi ei golli'n llwyr.
>
> ***Eirthrio o'r cynllun(iau)***: pan ystyrir bod datganiad anghywir yn ymwneud â thir neu anifeiliaid yn ganlyniad i esgeulustod difrifol, y gost orfodol yw eithrio'r cynhyrchydd o'r cynllun (hy dim talu hawliadau) am y flwyddyn dan sylw. Os canfyddir bod y drosedd yn ganlyniad i fwriad i dwyllo, mae'r cynhyrchydd yn cael ei eithrio o'r cynllun(iau) perthnasol am y flwyddyn wedyn hefyd.

9. Yn ogystal â hyn, mae yna nifer fawr o achosion lle mae ymgeiswyr yn ceisio dadlau yn erbyn gostyngiad yn eu taliadau cymhorthdal. Dyma rai enghreifftiau: pan nad yw hawliwr yn gallu cywiro

camgymeriad yn ei gais oherwydd nad yw'n syrthio o fewn canllawiau'r Comisiwn ar 'wallau amlwg'; pan fo cais am ostyngiad mewn niferoedd anifeiliaid i'w ystyried fel gorfodaeth yn cael ei wrthod; pan fo hawliad anfeiliaid yn cael ei ostwng oherwydd nad yw'n cael ei gefnogi gan y maint cywir neu'r math cywir o gwota; neu pan fo cofnodion buches neu braidd annigonol neu anghywir yn cael eu canfod mewn archwiliad. Mae darpariaethau gor-bori hefyd yn rhan annatod o rai o'r cynlluniau da byw. Mae anghydfod yn codi weithiau ynglyn â maint y cosbau a roddir o ganlyniad i'r maint o or-bori ar dir porthi.

10. Mae canllawiau gan yr UE ar y rhain ac er bod y canllawiau yma wedi cael eu gwneud rywfaint yn fwy eglur dros y blynyddoedd, maent yn gyfarwyddol ac ychydig o le sydd yno i ddisgresiwn gan yr awdurdod gweithredol. Mewn rhai achoson, hyd yn oed os ydym yn argyhoeddedig bod gwallau yn rhai gwirioneddol neu bod amgylchiadau esgusodol wedi bod, ni allwn eu derbyn fel rhai sy'n dod o fewn y gofynion a nodir yn Rheoliadau IACS neu'r Cynllun neu yn y canllawiau ac felly rhaid cosbi.

11. Gall gosod y cosbau yma roi bod i sefyllfaoedd lle y gwelir ein penderfyniadau fel rhai annheg ac anghyfartal. Y teimlad yma o annhegwch, ynghyd â'r diffyg annibyniaeth ymddangosiadol - y cyhuddiad bod gweinyddiaethau yn gweithredu fel barnwr a rheithgor - yw'r prif ffactor a arweiniodd at alwadau am fecanwaith apeliadau.

**Beth sydd angen gwneud nawr?**

12. Ar hyn o bryd gall ymgeiswyr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad ar hawliad:

- Drafod hyn yn uniongyrchol gyda swyddogion yn y Swyddfa Ranbarthol leol a weinyddodd yr hawliad a gofyn iddyn nhw ail-ystyried eu penderfyniad;
- Gofyn i'w hachos gael eu ystyried ar lefel uwch a chael ei gyfeirio i'r Pencadlys yng Nghaerdydd;
- Apelio drwy eu Haelod Cynulliad at Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig;
- Ceisio iawndal yn y Llysoedd drwy'r broses o Adolygiad Barnwrol.

13. Mae ffermwyr yn dadlau nad yw'r Swyddfeydd Rhanbarthol sy'n delio â'r achosion yn y lle cyntaf yn gallu rhoi barn annibynnol. Rhoddwyd yr un feirniadaeth i achosion a ystyriwyd gan y Pencadlys, a weithiau, i rai a anfonwyd i Ysgrifenyddion y Cynulliad. Mae'r broses o adolygiad barnwrol yn cael ei gweld fel un hir, cymhleth a drud, a beth bynnag, ei bwriad yw ystyried pwyntiau cyfreithiol yn unig.

14. Er bod hyn y tu allan i faes y papur ymgynghorol hwn, os yw ffermwyr yn dymuno **cwyno** am y ffordd y mae'r Cynulliad wedi trin eu hachos, gallant yn y lle cyntaf wneud defnydd o god ymarfer newydd y Cynulliad ar gwynion sy'n ymwneud â phanel yn cael ei gadeirio gan rywun sy'n annibynnol o'r Cynulliad. Gall achwynwyr gyfeirio'u hachos at y panel sy'n archwilio gweithrediadau neu fethiannau honedig ar ran y Cynulliad neu safonau'r gwasanaeth a roddwyd. Fodd bynnag, nid yw'r cod yn darparu ar gyfer adolygu sylwedd y penderfyniadau a wnaed gan y Cynulliad yn gweithredu'n gymwys o fewn ei bwerau cyfreithiol. Mewn achosion o gamweinyddu honedig gall ffermwr barhau i ofyn i Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru i ystyried y mater. Pe bai'r Ombwdsman yn barnu o blaid y ffermwr mae'r achos

yn cael ei weld gan Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad a chamau adferol yn cael eu cymryd fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, ni fydd yr Ombwdsman yn edrych ar gwyn fel rheol oni bo'r gwyn honno wedi bod drwy drefn gwyno'r cyrff priodol i ddechrau.

15. Mae'n debyg y bydd yna achosion lle mae llinell denau iawn sydd yna rhwng achosion i'w hystyried gan banel cwynion y Cynulliad a'r rheiny a ddylai ddod o dan y cynigion apeliadau sy'n dilyn yn y papur hwn. Bydd angen i swyddogion yn y Cynulliad Cenedlaethol gynghori ffermwyr pa lwybr i'w gymryd i'w hamgylchiadau arbennig nhw, ond bydd arweiniad ar gael am y categorïau o achosion i'w hystyried drwy'r drefn gwyno neu'r drefn apeliadau.

**Y Confensiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol**

16. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998, adran 107, yn amodi nad oes gan y Cynulliad y pwer i wneud unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd ag unrhyw un o Iawnderau'r Confensiwn. Er nad yw tarddiad y gweithdrefnau apêl presennol wedi eu profi yn y Llysoedd, mae'n bosib na fydd y trefniadau apelio presennol yn llwyr foddhau gofynion Erthygl 6 o'r Confensiwn. Mae hwn yn datgan "wrth benderfynu ei iawnderau sifil a rhwymedigaethau unrhyw gyhuddiad allanol yn ei erbyn, mae gan bawb yr hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a di-duedd a sefydlwyd gan y gyfraith". Pa drefniadau newydd bynnag a sefydlir, bydd angen iddynt fod yn gyson â gofynion y Confensiwn yma.

**Ydych chi'n cytuno bod angen mecanwaith apeliadau gwell a mwy annibynnol?**

**FFYRDD POSIBL YMLAEN**

**Gwell arweiniad**

17. Un o'r beirniadaethau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei wynebu yw na fu yn ddigon eglur i ffermwyr neu eu cynrychiolwyr sut y dylen nhw apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed. Bydd cyflwyno system well o apeliadau yn ei gwneud yn arbennig o bwysig i ni gael eglurhad clir yn barod am sut y gall ffermwyr fynd at y system a sut y dylen nhw fynd at i ddwyn eu hachos i apêl.

18. Rydym yn bwriadu felly llunio arweiniad clir a fydd yn cael ei gynnwys bob tro mewn llenyddiaeth am y cynllun a gydag unrhyw ohebiaeth a allai arwain at apêl. Bydd gwybodaeth ar gael ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar y We a bydd swyddfeydd Rhanbarthol a lleol yn dangos posteri sy'n egluro'r broses apeliadau.

**Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am sut y gallem roi cyhoeddusrwydd i'n proses apeliadau newydd fel bod ffermwyr yn gwybod yn iawn sut i ddwyn eu hachosion i apêl?**

**Dull Graddol Posibl at Apeliadau**

19. Mae Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno sefydlu proses apeliadau agored, teg a thryloyw sydd yn sicrhau y gall ffermwyr gael gwrandawiad i'w hachosion ar y lefel briodol. Mae'n anodd asesu faint o benderfyniadau y gallai unrhyw broses apeliadau newydd allu eu hystyried. Y peth gorau i'w wneud yw rhoi syniad am nifer yr hawliadau sydd wedi cael eu haddasu i ryw raddau a chasglu y byddai cyfran o'r hawlwyr yma yn dymuno gwneud apêl. Fodd bynnag, mae hyn yn ddull gor-syml ac yn anwybyddu'r ffaith bod, mewn nifer o achosion, y gostyngiad mewn taliad sy'n codi o wall wedi cael ei dderbyn gan yr hawliwr fel un cywir am ei fod yn cael ei weld fel cosb ddilys.

20. Byddai i gorff apêl ystyried cyfanswm nifer yr achosion lle rhoddwyd cosb neu ostyngiad mewn hawliad olygu tasg enfawr a chostus i'r Cynulliad ac i'r diwydiant. Byddai hefyd yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd wrth wraidd consyrn y diwydiant, sef cael system sydd yn gost-effeithiol ac yn hawdd ei gweithredu, sy'n annog pobl i beidio â'i defnyddio ar chwarae bach a sy'n llenwi'r bwlch a welir yn y system bresennol. Mae'n rhaid felly cael rhyw ffordd o ystyried apeliadau ar wahanol lefelau mewn ffordd deg a thryloyw.

**Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu proses apêl yn cynnwys sawl gwahanol gam y mae'n rhaid i ffermwyr fynd trwyddynt?**

**Y Camau Arfaethedig**

21. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn y byddai cadw'r sefyllfa fel y mae hi yn annerbyniol i'r diwydiant. Mae apeliadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar lefelau uwch na'r penderfyniad gwreiddiol a gymerwyd ac mae ymgynghori yn digwydd gyda swyddogion yn MAFF a Phwyllgor Gwaith yr Alban a, weithiau, y Comisiwn Ewropeaidd, ond mae'r cynigion canlynol yn glriach ac yn cynnwys yr elfen o annibyniaeth y mae'r diwydiant wedi bod yn chwilio amdani.

**CAM 1 APELIADAU**

21.1 Yn y cam cyntaf hwn, byddai ffermwyr yn ymateb i benderfyniadau nad oeddent yn hapus yn eu cylch drwy gysylltu â rheolwr yr aelod unigol o'r staff oedd wedi gwneud y penderfyniad gwreiddiol. Byddem yn gwneud yn siwr bod gan ffermwyr fanylion am pwy i gysylltu â nhw.

**CAM 2 APELIADAU - SWYDDOG GWEITHREDOL RHANBARTHOL**

21.2 Pe bai'r ffermwyr yn dal i fod yn anfodlon â'r atebion o gam 1 byddent yn gallu mynd at y Swyddog Gweithredol Rhanbarthol (SGRh) yn y swyddfa Ranbarthol leol. Byddai unrhyw apêl gâi ei gwrthod yn y cam hwn yn arwain at ateb gan y SGRh gyda phapur achos fformat safonol ysgrifenedig yn amlinellu rhesymau'r Cynulliad dros wrthod yr apêl. Byddai wedyn i fyny i'r apeliwr a/neu eu cynrychiolydd i ystyried p'un ai i ddwyn yr apêl i gam 3 ai peidio.

**CAM 3 APELIADAU - UNED-APELIADAU**

21.3 Rydym yn awgrymu sefydlu Uned Apeliadau Cymru-gyfan i ystyried pob apêl cam 3. Byddai'r uned hon yn annibynnol ar y strwythurau rheoli lle y gwnaed y penderfyniadau gwreiddiol a byddai'n ystyried papurau achos a gyhoeddwyd gan SGRhion yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a roddwyd gan yr apelwyr. Gallai'r Uned Apeliadau hefyd alw am wybodaeth bellach o Swyddfeydd Rhanbarthol a chynnal trafodaethau wyneb-yn-wyneb gyda'r apelwyr fel y bo angen.

21.4 Uned newydd fyddai hon, wedi ei staffio gan swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol, a'i sefydlu'n benodol ar gyfer gwella ein proses apelio. Byddai'r staff yn cael eu hyfforddi'n iawn i ddelio â phob achos a'r ddeddfwriaeth gymhleth ynghlwm wrth bob un. Gobeithir y gellid delio â mwyafrif helaeth yr achosion yn y 3 cham apêl yma. Ni fyddai unrhyw gost i'r sawl sy'n gwneud yr apêl yn unrhyw un o'r camau hyn.

**Ydych chi'n cytuno bod angen y 3 cham yma i hidlo achosion cyn gorfod mynd at gam 4, y panel annibynnol?**

**CAM 4 APELIADAU - PANEL ANNIBYNNOL**

21.5 Byddai'r cam hwn yn rhoi llawer mwy o annibyniaeth ond byddai'n fwy drud ac yn cymryd amser. Byddai'n golygu sefydlu panel ymgynghorol o ganolwyr i wrando ar apeliadau a gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Cynulliad yng ngoleuni ffeithiau'r achos ac argymhellion y panel.

21.6 Byddai'r panel yn cael ei wasanaethu gan yr Uned Apeliadau (gweler cam 3), ond byddai yna gost ychwanegol o gynnal panel o ganolwyr annibynnol. Ymhellach, byddai yna gostau parhaol wrth wasanaethu a chynnal panel o'r fath ee hyfforddiant, teithio a threuliau a chostau yn ymwneud â gwrandawiadau. Byddai cost pob achos yn dibynnu ar nifer yr oriau/dyddiau angenrheidiol a'r nifer o achosion y gellid eu clywed mewn un eisteddiad.

21.7 Byddai angen rhoi hyfforddiant ac arweiniad clir i'r canolwyr i wneud yn siwr bod eu hystyriaethau a'u argymhellion yn aros o fewn gofynion ac ysybryd Rheoliadau'r UE. I fod yn effeithiol, byddai'n rhaid i system apeliadau, beth bynnag ei chyfansoddiad, weithredu o fewn ffiniau wedi eu diffinio'n eglur. Byddai'n rhaid iddo hefyd gael dealltwriaeth glir o'i rhyddid i wneud argymhellion o fewn telerau'r Rheoliadau: ***nid yw bodolaeth gweithdrefn apeliadau yn rhyddhau'r diwydiant rhag cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol gan y byddai hyn yn syth yn gosod y Cynulliad mewn perygl o wrthodiad.***

21.8 Byddem yn rhagweld y byddai'r panel yn gwneud argymhellion ynglyn ag

anghydfodau am hanfod y penderfyniadau a gymerwyd gan swyddogion ond ni allai herio'r Rheoliadau Ewropeaidd. Gallai aelodau'r panel gynnwys cadeirydd o'r tu allan (gyda chefndir yn y diwydiant amaeth), aelod lleyg allanol, ffermwr sy'n amaethu, cyfreithiwr ac uwch swyddog o'r Cynulliad. Mae'n bosib y byddai angen i swyddogion a chyfreithwyr y Cynulliad fynd i wrandawiadau, er yr ydym yn rhagweld y byddai rhai achosion yn cael eu clywed ar sail ad-hoc drwy ohebiaeth. Gallai ffermwyr gael yr hawl i weithdrefn ysgrifenedig neu un lafar er y byddem yn disgwyl datblygu papur achos safonol yr apeliwr a fyddai'n gorfod cael ei ddefnyddio i amlinellu'r apêl ymhob achos. Byddai gan y panel annibynnol fynediad hefyd at bapur achos y Cynulliad (SGRh) (gweler cam 2 uchod) a gallai alw am dystiolaeth bellach fel byddai'r angen.

**Ydi'r awgrymiadau i sefydlu'r broses cam 4 hon yn cwrdd â disgwyliadau'r diwydiant o banel annibynnol?**

**Y LLYSOEDD**

21.9 Er nad yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddai'n amlwg y gallai apelwyr barhau i wneud cais i'r llysoedd am ganiatâd i gychwyn gweithdrefnau adolygiad barnwrol pe baent yn dal i fod yn anfodlon â phenderfyniad yr Ysgrifennydd Cynulliad.

**Costau a Thaliadau**

22. Byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno cadw i'r lleiafswm gostau'r ffermwr wrth wneud apêl a chostau gweinyddol cyflwyno mecanwaith apeliadau annibynnol. Dylai unrhyw fecanwaith apeliadau fod ar gael yn hawdd i bob ffermwr. Fodd bynnag, dim ond os nad oes llawer o apeliadau di-sail y gellir cadw costau yn isel. Ni fydd neb yn elwa os yw'r trefniadau newydd yn cael eu tagu gan niferoedd mawr o achosion, gyda rhai ohonynt yn anghynaladwy. Dylai ffermwyr felly (ac Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol) gymryd pob cyfle i ddod â'r apêl i ben yng nghamau 1-3. Ni fyddai tâl yn cael ei wneud am achos a driniwyd yn fewnol.

23. Mae Pwyllgor Gwaith yr Alban wedi awgrymu blaendal o £100 i'r ffermwr am wrandawiad o flaen panel ymgynghorol annibynnol. Byddai'n cael y blaendal hwn yn ôl pe bai'r panel yn argymell o blaid yr apêl. Mae'n bosib y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno mabwysiadu dull tebyg.

**Ydych chi'n cytuno bod codi tâl yn ffordd o gyfyngu ar apeliadau di-sail?**

**Ydych chi'n cytuno y dylai <u>pob</u> apêl fynd drwy'r broses gam wrth gam neu a ddylai pobl gael y dewis o fynd yn syth i gam 4 os dymunant er gwaethaf yr oblygiadau cost sylweddol i'r Cynulliad?**

**Y SEFYLLFA YN YR ALBAN, MAAF A GOGLEDD IWERDDON**

24. Yn yr Alban, mae Adran Materion Gwledig Pwyllgor Gwaith yr Alban (SERAD) wedi cwblhau'r

broses ymgynghorol ac mae Gweinidogion yr Alban wedi nodi eu bwriad i sefydlu system dair lefel lle y gellir ystyried apeliadau o fewn y fframwaith eang:

i. Pencadlys SERAD yn Pentland House (lle bydd panel yn cynnwys Rheolwr y Cynllun a dau swyddog annibynnol yn ystyried apeliadau).

ii Panel Ymgynghorol (yn cynnwys dau gynrychiolydd annibynnol o'r diwydiant ac aelod o SERAD)

iii. Llys Tir yr Alban

Mae'r manylion llawn yn dal i gael eu trafod.

25. Mae disgwyl i MAFF ac Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) Gogledd Iwerddon ymgynghori cyn bo hir ar eu hargymhellion.

26. Rydym yn bwriadu cadw mewn cysylltiad agos â'r adrannau amaethyddiaeth eraill i wneud yn siwr ein bod yn dysgu gwersi ac yn parhau i wella'n prosesau o ganlyniad i arfer gorau mewn llefydd eraill. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu mecanwaith yng Nghymru sy'n cwrdd ag anghenion ein hamgylchiadau ein hunain a gofynion ffermwyr Cymru.

**CASGLIADAU**

27. Mae sefydlu mecanwaith apeliadau yn codi nifer o faterion anodd. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â Chod Ymarfer y Cynulliad ar gwynion a'r angen i ni sicrhau bod pryderon ffermwyr yn cael eu delio â nhw drwy'r sianel briodol. Mae yna oblygiadau i rannau eraill o lywodraeth y DU - er mwyn cael cydbwysedd byddai'n ddymunol i ffermwyr ledled y DU gael yr un mynediad at fecanweithiau gweddol debyg er mwyn apelio. Mae'n amhosib cael amcangyfrifon manwl o gostau gweithredu nes bod gennym syniad cliriach am ba fath o strwythur apelio allai gael ei weithredu a faint o apeliadau sy'n debygol o gyrraedd y gwahanol gamau a amlinellwyd uchod.

**Byddem yn falch iawn o dderbyn eich sylwadau ar y cwestiynau penodol yn y papur hwn ac unrhwy sylwadau neu syniadau eraill allai fod gyda chi am y pwnc. Oes gennych chi sylwadau eraill?**

---

**ATODIAD A**

Gwariant Cynlluniau Cymhorthdal CAP yng Nghymru (Blwyddyn Gynllun 1998-1999)

| **Cynllun** | **Union Wariant 1998-1999** |
|---|---|
| Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid | 99,880 |
| Cynllun Premiwm Blynyddol Buwch Sugno | 40,042 |
| Cynllun Premiwm Arbennig Eidion | 32,004 |
| Cynllun Taliad Tir Âr | 12,138 |
| Lwfans Iawndal Anifeiliaid Mynydd | 44,702 |
| Cyfanswm | 228,766 |

---

**ATODIAD B**

**COSBAU**

**1. Derbyn yn Hwyr**

| **Dyddiau'n Hwyr** | **Cosbau** |
|---|---|
| **i.** 1 i 25 diwrnod calendr | **i.** 1% o'r hawl i gymorth neu bremiwm am bob diwrnod gwaith y mae'r Cais Cymorth Ardal yn hwyr ac i bob cynllun y mae'r cais yn ymwneud â nhw (ddim yn berthnasol i BSPS lle mae'n rhaid gwneud hawliad o fewn y flwyddyn galendr berthnasol). |
| **ii.** Dros 25 diwrnod calendr | **ii.** Bydd pob cymorth neu bremiwm a dalwyd o dan y cynlluniau y mae'r Cais Cymorth Ardal yn ymwneud â nhw yn cael eu colli. |

**2. Gwallau mewn ardaloedd**

| **Math o wall** | **Cosb** |
|---|---|
| **i.** Mae'r ardal a ganfuwyd yn fwy na'r ardal a hawliwyd/a ddatganwyd | **i.** Cymorth yn cael ei seilio ar yr ardal a hawliwyd/ddatganwyd. |

| | |
|---|---|
| **ii.** Yr ardal a ganfuwyd yn llai na'r ardal a hawliwyd/ ddatganwyd | **ii.** Bydd cymorth yn cael ei seilio ar yr ardal is. Yn ogystal, bydd yr ardal yn cael ei gostwng ymhellach fel a ganlyn:<br><br>**a.** Os yw'r gwahaniaeth a welwyd yn fwy na 3% neu 2 ha, ond ddim yn fwy na 20% o'r ardal a welwyd, bydd y gostyngiad pellach ddwywaith y gwahaniaeth a welwyd.<br><br>**b.** Os yw'r gwahaniaeth a welwyd yn fwy na 20% o'r ardal a welwyd, ni fydd unrhwy gymorth seiliedig ar ardal yn cael ei ganiatau o fewn y grwp cnwd sy'n cynnwys y gor-hawliad. |

**3. Gwallau yn niferoedd anifeiliaid ar anifeiliad yr hawlir amdanynt**

| Math o wall | Cosb |
|---|---|
| **i.** Y nifer o anifeiliaid a ganfuwyd yn fwy na'r nifer a hawliwyd | **i.** Cymorth yn cael ei seilio ar nifer yr anifeiliaid a hawliwyd - ond gweler 4 sy'n ymwneud ag *anifeiliaid a allai fod yn gymwys. |
| **ii.** Y nifer a sefydlwyd a sy'n gymwys yn llai na'r nifer a hawliwyd a'r cais am ddim mwy nag 20 anifail mae'r cymorth yn cael ei ostwng - ac eithrio achosion o orfodaeth ac amgylchiadau naturiol - fel a ganlyn: | |
| **a.** Nifer yr anifeiliaid a ganfuwyd 1 neu 2 yn llai na'r nifer a hawliwyd | **a.** Bydd yr hawl yn cael ei seilio ar y nifer a ganfuwyd ond bydd cyfradd y cymorth yn cael ei ostwng gan y gwahaniaeth canran a seiliwyd ar y rhif a ddatganwyd. |
| **b.** Nifer yr anifeiliaid a ganfuwyd yn 3 neu 4 yn llai na'r nifer a hawliwyd | **b.** Bydd yr hawl yn cael ei seilio ar y nifer a ganfuwyd ond bydd cyfradd y cymorth yn cael ei ostwng gan ddwywaith y gwahaniaeth canran a seiliwyd ar y rhif a ddatganwyd. |
| **c.** Y gwahaniaeth rhwng y nifer a hawliwyd a'r nifer a ganfuwyd yn fwy na 4 | **c.** Ni fydd cymorth yn cael ei dalu o dan y cynllun dan sylw |
| **iii.** Os yw'r nifer a sefydlwyd a sydd yn gymwys yn llai na'r nifer a hawliwyd a bod y cais am fwy nag 20 anifail mae'r cymorth yn cael ei ostwng - ac eithiro achosion o orfodaeth ac amgylchiadau naturiol - fel a ganlyn: | |

| | |
|---|---|
| **a.** Y gwahaniaeth rhwng y nifer a hawliwyd ac a ganfuwyd yn ddim mwy na 5% o'r nifer a ganfuwyd | **a.** Bydd yr hawl wedi ei seilio ar y nifer a ganfuwyd ond bydd cyfradd y cymorth yn cael ei ostwng gan y gwahaniaeth canran a seiliwyd ar y nifer a ganfuwyd |
| **b.** Y gwahaniaeth rhwng y nifer a hawliwyd ac a ganfuwyd yn fwy na 5% ond ddim mwy na 20% o'r nifer a ganfuwyd | **b.** Bydd yr hawl wedi ei seilio ar y nifer a ganfuwyd ond bydd cyfradd y cymorth yn cael ei ostwng gan ddwywaith y gwahaniaeth canran a seiliwyd ar y nifer a ganfuwyd |
| **c.** Y gwahaniaeth rhwng y nifer a hawliwyd a'r nifer a ganfuwyd yn fwy na 20% o'r nifer a ganfuwyd | **c.** Ni fydd cymorth yn cael ei dalu o dan y cynllun dan sylw |

* Anifeiliaid allai fod yn gymwys yw'r rheiny o'r un rhyw nad ydynt yn rhan o'r hawliad presennol

**4. Anghyosondebau rhwng nifer yr anifeiliaid allai fod yn gymwys ar y fferm a'r nifer a roddwyd yn y cofnodion.** Mae'r strwythur cosbi yn cael ei rannu i dri categori:

| |
|---|
| **Categori Un** - pan fod yna wahaniaeth rhwng nifer yr anifeiliaid allai fod yn gymwys ar y fferm a'r nifer a hysbyswyd i'r Gwasanaeth Symudiad Gwartheg Prydeinig (BCMS), yn cael ei ddarganfod ar unrhyw archwiliad fferm, yna bydd cosbau yn cael eu rhoi yn gyfatebol i'r holl hawliadau a gyflwynwyd o dan y Cynllun(iau) yn y 12 mis cynt (mewn grym o 1.1.2000 yn unig). |
| **Categori Dau** - lle<br><br>(a) mae yna wahaniaeth rhwng nifer yr anifeiliaid allai fod yn gymwys ar y fferm a'r nifer yn y cofrestru buches neu'r nifer o basborts gwartheg ar y fferm; a/neu<br><br>(b) mae anifeiliaid allai fod yn gymwys yn cael eu disgrifio'n anghywir yn yr hysbysiad i'r BCMS, yn y cofestru buches, neu ar eu pasborts gwartheg, ar ddau neu fwy o wiriadau fferm o fewn cyfnod o 24 mis, bydd cosbau yn cael eu rhoi yn gyfatebol i bob hawliad a gyflwynwyd o dan y Cynllun(iau) yn y 12 mis cyn yr ail wiriad (neu'r gwiriad hwyrach). |
| **Categori Tri** - lle mae'r gwahaniaeth a sefydlwyd* yn ystod gwiriad ar fferm yn fwy na 20% ar ddau achlysur o fewn cyfnod o 24 mis, yna ni fydd premiwm yn cael ei dalu am hawliadau a gyflwynwyd yn y cyfnod 12 mis cyn yr ail wiriad. (Mae hyn yn disodli'r wybodaeth a roddwyd yn 14.6 - paragraff olaf - Nodiadau Canllaw SCPS 2000). |

**5. Ôl-wiriadau a wnaed ar adeg yr archwiliad**

| |
|---|
| Ar yr adeg bod hawliad yn cael ei archwilio, gwiriad ar sail y cofrestr gan y cynhyrchydd bod yr holl anifeiliaid y rhoddwyd ceisiadau cymorth ar eu cyfer i mewn yn y 12 mis cyn yr archwiliad wedi eu cadw drwy'r cyfnod cadw a bod y data yr un fath ag a hysbyswyd i'r gronfa ddata. |

* Mae "wedi sefydlu" yn y cyd-destun hwn yn golygu cael ei adnabod gan basbort, wedi hysbysu cronfa ddata BCMS, ei gofnodi yn y gofnod buches, ei dagio yn ei glust a'i ganfod yn y lleoliad a roddwyd i'r Swyddfa Ranbarthol leol.

---

TAFLEN ATEB

Dychweler i

Mrs Julia Richards
Is-Adran Rheoli'r Polisi Amaeth Cyffredin
Adran Amaethyddiaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rwyf i/Rydym ni wedi ystyried yr opsiynau a amlinellwyd yn Sefydlu Mecanwaith Apeliadau i Ffermwyr yng Nghymru.

Ydych chi'n cytuno bod angen mecanwaith apeliadau well a mwy annibynnol?

A oes gennych syniadau eraill am sut y gallem roi cyhoeddusrwydd i'n proses apeliadau newydd fel bod ffermwyr yn berffaith sicr sut i ddwyn eu hachosion i apêl?

Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu proses apeliadau yn cynnwys sawl gwahanol gam y dylai'r ffermwyr orfod eu dilyn?

Ydych chi'n cytuno bod y 3 cam cyntaf yn angenrheidiol cyn mynd at gam 4, y panel annibynnol?

Ydi'r syniad o sefydlu'r broses cam 4 hon yn cwrdd â disgwyliadau'r diwydiant am banel annibynnol?

Ydych chi'n cytuno bod codi tâl yn ffordd resymol o gyfyngu ar apeliadau di-sail?

Ydych chi'n cytuno y dylai pob apêl fynd drwy'r broses gam wrth gam neu a ddylai pobl gael y dewis o fynd yn syth at gam 4 pe dymunent hynny?

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Oddi Wrth:

Enw ..............................................................................................
Sefydliad.........................................................................................
Cyfeiriad..........................................................................................
.......................................................................................................
.......................................................................................................